

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
28 Ionawr 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 Rheoliadau 2022 (“Rheoliadau 2022”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007,
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014,
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015,
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.

1.2 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r cymorth presennol i fyfyrwyr er mwyn:

- cynyddu maint y cymorth i israddedigion, yn unol â pholisi sefydledig;
- dileu cyfeiriadau at y 'cyfnod gras' mewn perthynas â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr israddedig;
- sicrhau bod unigolion, sy'n cael caniatâd i ddod i'r wlad neu i aros fel dinasyddion perthnasol Affganistan ac aelodau o'u teulu o dan gynlluniau mewnffudo'r Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) a Chynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu (nid yw'r newid hwn yn ofynnol o dan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017);
- sicrhau bod myfyrwyr o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron sy'n astudio cwrs addysg uwch yng Nghymru yn gymwys ar gyfer statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu;
- sicrhau y bydd myfyrwyr ar y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn cael yr un cymorth â'r rhai ar gynllun Erasmus+; a
- sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio cwrs ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol ac yn cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol yn gymwys i wneud cais am Grant i Fyfyrwyr Anabl os yw'r cwrs yn dechrau ar 1 Awst 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir Rheoliadau 2022 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), (b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
- 3.2 Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.
- 3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 yn effeithiol o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gyddredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- 3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.
- 3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer system y cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a myfyrwyr

eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

- 4.2 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r rheoliadau cymorth presennol i fyfyrwyr fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.11.

Cynnydd mewn cymorth blynyddol

- 4.3 Mae swm y cymorth i israddedigion wedi'i ddiwygio, yn unol â pholisi sefydledig, fel a ganlyn:

- cynyddu swm y Grant i Fyfirwyr Anabl sydd ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u haddysg yn ôl y gyfradd chwyddiant o 2.2 y cant a ragwelir i adlewyrchu cynnydd mewn costau byw;
- cynyddu swm y Grantiau ar gyfer Dibynyddion, gan gynnwys y Grant Gofal Plant, sydd ar gael i fyfyrwyr newydd a'r rheini sy'n parhau â'u haddysg yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir;
- cynyddu swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Awst 2018 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod y pecyn cynhaliaeth cyffredinol yn adlewyrchu amcanestyniad y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer 2022 (cyfradd fesul awr y Cyflog Byw Cenedlaethol yw £9.52);
- cynyddu swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ond cyn 1 Awst 2018, yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir; a
- lleihau swm y grant ffioedd dysgu a chynyddu swm y benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu i'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ond cyn 1 Awst 2018, yn ôl y gyfradd chwyddiant a ragwelir, fel nad yw'r cymorth cyffredinol ar gyfer ffioedd dysgu yn newid.

Dileu darpariaethau sy'n ymwneud â "cyfnod gras" y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

- 4.4 Daeth y 'dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais' a'r 'cyfnod gras' sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i ben ar 30 Mehefin 2021. Darperir ar gyfer y rhain yn Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau Ar gyfer Cyflwyno Cais a Diogelu Dros Dro) (Ymadael â'r UE) 2020. Caiff person gyflwyno cais am ganiatâd i aros o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE hyd at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, sef 30 Mehefin 2021. Mae rhai o'r hawliau a roddir o dan Rheoliadau Mewnfudo (yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016 hefyd yn cael eu cadw hyd at y dyddiad hwnnw, er bod y rheoliadau hynny wedi'u dirymu – y 'cyfnod gras'. At hynny, pan fo'r cyfnod gras wedi dod i ben a bod person wedi cyflwyno cais dilys nad oes penderfyniad wedi'i wneud arno, caiff y cyfnod ei ymestyn hyd nes y gwneir penderfyniad – y 'cyfnod perthnasol'.

- 4.5 Gwnaed darpariaeth yn Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 i sicrhau nad oedd y rhai sy'n gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd i aros o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn ystod y cyfnod gras yn anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr yn anfwriadol. Gwneir diwygiad angenrheidiol i'r rheoliadau i ddileu'r cyfeiriadau at y cyfnod gras (yn unig).

Gwladolion Affganistan

- 4.6 Ar 29 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn a'r Ysgrifennydd Cartref y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP). Mae'r cynllun hwn yn cynnig adleoli neu gymorth arall i staff presennol a chyn-staff a gyflogir yn lleol yn Affganistan i adlewyrchu'r sefyllfa newidiol yn Affganistan. Lanswyd cynllun ARAP ar 1 Ebrill 2021 a bydd yn parhau i fod ar waith am gyfnod amhenodol.
- 4.7 Yn ogystal, oherwydd digwyddiadau diweddar yn Affganistan, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion am gynllun newydd ym mis Awst 2021 a elwir yn 'Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan' (ACRS). Mae'r ACRS wedi'i sefydlu i ddiogelu dinasyddion Affganistan sydd wedi cyfrannu at gymdeithas sifil neu sy'n wynebu risg benodol – er enghraifft, oherwydd eu rôl yn amddiffyn democratiaeth a hawliau dynol, neu oherwydd eu rhyw, eu rhywioldeb neu eu crefydd.
- 4.8 Gwneir diwygiad i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 er mwyn darparu bod Affganiaid sydd wedi'u hadleoli i'r DU o dan ARAP ac ACRS yn gallu cael cymorth i fyfyrwyr, yn unol â chategoriâu eraill sy'n ymwneud â chaniatâd a ddiogelir, a'u bod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu. Caiff hyn ei gynnig i'r priod, i'r partner sifil neu i unrhyw blant dibynnol o dan 18 oed.

Myfyrwyr sy'n symud o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron i astudio yng Nghymru

- 4.9 Gwneir diwygiad i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymwys a Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2015. Mae'r diwygiad yn darparu bod myfyrwyr o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron (Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw) sy'n dod i Gymru i astudio yn gymwys am statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysra perthnasol.

Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu

- 4.10 Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu a fydd yn sicrhau bod y cyfleoedd a ddarperir gan Erasmus+ i ddysgwyr a darparwyr yng Nghymru yn parhau i fod ar gael. Gwneir diwygiad i'r rheoliadau i gynnwys cyfeiriad at y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, er mwyn

sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n cymryd rhan ym mlwyddyn academaidd 2022/23.

Myfyrwyr Gradd Feistr Ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol – Grant i Fyfirwyr Anabl

4.11 O dan y rheoliadau presennol, nid yw myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer Gradd Feistr Ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol ac sy'n cael bwrsariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymwys i gael cymorth i fyfirwyr. Gwneir diwygiad i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) i ddarparu bod y myfyrwyr hyn, sy'n dechrau ar eu cwrs ar 1 Awst 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn gymwys i gael y Grant i Fyfirwyr Anabl, lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn dilyn newid mewn polisi i alluogi'r myfyrwyr hyn i gael gwneud cais am y Grant i Fyfirwyr Anabl ac am elfen o gyllid benthyciadau (bwriedir gwneud diwygiadau pellach i'r ddeddfwriaeth) i gydnabod pwysigrwydd y proffesiwn i lesiant pobl Cymru.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer y diwygiad i ddarparu bod myfyrwyr o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron sy'n dod i Gymru i astudio yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu. Lanswyd yr ymgynghoriad ar 2 Awst 2021 a daeth i ben ar 25 Hydref 2021. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynigion yn yr ymgynghoriad.
- 5.2 O ran y diwygiadau eraill, nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hynny ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2022.

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 6.1 Os na wneir Rheoliadau 2022, y goblygiadau yw:
- bydd gwerth y cymorth i fyfirwyr yn gostwng mewn termau real, gan adael myfyrwyr i ysgwyddo cost y gostyngiad hwnnw;
 - ni fydd y meini prawf cymhwysra'n gyfartal ar gyfer statws ffioedd cartref, y cap ar ffioedd dysgu a chymorth i fyfirwyr mewn perthynas â gwladolion Affganistan ac eraill sydd â chaniatâd tebyg a ddiogelir i fod yn y DU;

- ni fydd myfyrwyr o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron sy'n dod i Gymru i astudio yn gymwys i gael statws ffioedd cartref na'r cap ar ffioedd dysgu, gan roi sefydliadau addysg uwch Cymru o dan anfantais gystadleuol;
- ni fydd myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn gallu manteisio ar gymorth, sy'n groes i bolisi; ac
- ni fydd myfyrwyr Gradd Feistr Ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol sy'n dechrau ar eu cyrsiau ym mlwyddyn academaidd 2022/23 yn gymwys ar gyfer y Grant i Fyfirwyr Anabl.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

6.2 Mae gwneud y rheoliadau hyn yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi.

7. Costau a buddiannau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

7.1 Byddai gadael y rheoliadau presennol ar waith yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfirwyr. Byddai myfyrwyr yn dwyn cost y gostyngiad gwirioneddol drwy werth y cymorth i fyfirwyr y byddent yn eu cael.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

7.2 Drwy wneud Rheoliadau 2022, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod system cymorth i fyfirwyr Cymru yn cael ei hategu gan fframwaith cyfreithiol priodol, a bod polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. Bydd myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod gwir werth eu cymorth yn cael ei gynnal. Mae ymestyn y meini prawf cymhwysra mewn perthynas â chael cymorth, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu, fel y'i cofnodwyd uchod, yn sicrhau bod manteision addysg uwch yn cael eu cynnig yn briodol, a bod triniaeth gyfartal rhwng grwpiau. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, i'r economi ac i gymdeithas wedi'u hen sefydlu.

7.3 Mae'r codiadau arferol a wneir i gyfraddau'r cymorth i fyfirwyr bob blwyddyn yn diogelu gwir werth y cymorth hwnnw. Mae'r diwygiadau a wneir i swm y cymorth i fyfirwyr gan Reoliadau 2022 yn arwain at gynyddu'r cymorth a ragwelir gan £16.0m – a'r rhan fwyaf ohono ar gyfer myfyrwyr israddedig llawnamser, sy'n cynyddu gan £12.7m. I'w roi yn ei gyd-destun, cyfanswm y cymorth a ragwelir i fyfirwyr ar gyfer 2022-23 yw £1.358bn.

7.4 Ers 1 Medi 2021, mae 8,000 o unigolion wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan ARAP. Nid oes dadansoddiad hyd yma o'r niferoedd a ddisgwyllir cael eu hadleoli

i Gymru ac felly nid yw'r nifer o wladolion Affganistan y disgwylir iddynt wneud cais am gymorth i fyfyrwyr yn 2022/23 yn hysbys. Ni ellir amcangyfrif y gost yn gywir, ond mae'n debygol o fod yn gymharol fach.

- 7.5 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol mewn perthynas â'r diwygiad i ddarparu bod myfyrwyr o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron sy'n dod i Gymru i astudio yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu.
- 7.6 Ni fydd y diwygiad i ddarparu bod myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn gymwys i gael cymorth yn golygu y bydd unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol, gan fod y diwygiad yn disodli cynllun Erasmus.
- 7.7 Mae amcangyfrif o'r costau i ddarparu bod myfyrwyr Gradd Feistr Ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol, sy'n dechrau eu cyrsiau ym mlwyddyn academiaidd 2022/23, yn gymwys ar gyfer y Grant i Fyfyrwyr Anabl fel a ganlyn:

	2022/23 ⁽¹⁾	2023/24	2024/25	2025/26
Uchafswm y costau posibl ⁽²⁾	£524,100	£1,019,500	£1,049,000	£1,078,700
Costau disgwylidig	£52,100	£101,300	£104,300	£107,200

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru

⁽¹⁾ Gan dybio bod cymorth yn cael ei gyflwyno ar gyfer myfyrwyr newydd yn unig

⁽²⁾ Y gost os dyfernir uchafswm y DSG i bob myfyriwr cymwys

⁽³⁾ Costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf

- 7.8 Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu drwy gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

8. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2022 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Asesu ar ôl gweithredu

- 9.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith.